**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD IAU, 1 CHWEFROR 2024**

**BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: J.Hurley, N.Jenkins (Cadeirydd) a/ac C.Phillips

Cadeirydd Craffu: Y Cynghorydd R. Phillips

**Swyddogion yn Bresennol:**

R.Crowhurst, I.Guy, C.Millis, C.Saunders, M. Daley, R. Samuel, D-Holder-Phillips, S. McCluskie ac A. Thomas.

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd i benodi'r Cyng. N. Jenkins yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cynghorydd Jenkins bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2023 fel cofnod gwir a chywir.

5. **BLAENRAGLAN WAITH 2023 2024**

   Bod y Flaenraglen Waith ar gyfer 2023/2024 yn cael ei nodi

6. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

7. **PANEL YMGYNGHOROL SEFYDLOG**

**Penderfyniad:**
Bod Aelodau'n cefnogi'r cyfansoddiad ar gyfer Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. A bod y penderfyniad yn cael ei gymeradwyo i'r Cyngor i'w fabwysiadu.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Bod y CYS ar gyfer CGM i'w weithredu gyda chyfansoddiad sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun, 5 Chwefror.

8. **DIWEDDARIAD AR Y GWASANAETH IEUENCTID**

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi at ddibenion monitro.

9. **DIWEDDARIAD AR Y GYLLIDEB TEITHIO PERSONOL - CLUDIANT**

**Pendeifyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

10. **ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU LLYFRGELLOEDD CYHOEDDUS CYMRU 2023/24**

**Penderfyniad:**
Bod cynnwys adroddiad Asesiad Blynyddol 2022-2023 a Ffurflenni Blynyddol y Gwasanaethau Llyfrgell ar gyfer 2022-2023 yn cael eu nodi er gwybodaeth.

11. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

12. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**Penderfynwyd:**
Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r eitemau canlynol yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

13. **SEFYDLIAD CENEDLAETHOL BRENHINOL Y BADAU ACHUB**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r asesiad effaith integredig cam cyntaf, cytunodd yr aelodau i eithrio Rheolau Gweithdrefnau Contractau'r Cyngor a chymeradwyo dyfarnu'r contract yn uniongyrchol i'r RNLI ar gyfer Gwasanaeth Achub Bywydau'r Traeth ar lan môr Aberafan am gyfnod o 5 mlynedd, gan ddechrau ar 29 Mawrth 2024.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Sicrhau bod y Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaeth achub bywydau proffesiynol ar draeth Aberafan, gan ddarparu gwasanaethau diogel a hygyrch i breswylwyr ac ymwelwyr.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun, 5 Chwefror 2024.

**CADEIRYDD**